# ATODIAD C Cydweddoldeb Mewnol Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Profwyd pob un o 13 o Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer eu cydweddoldeb â'i gilydd. Aseswyd mai niwtral oedd cydweddoldeb mewnol Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn wreiddiol h.y. dim effaith eglur neu'n gadarnhaol gan fod pob un ohonynt yn ceisio gwella ansawdd yr amgylchedd a chynaliadwyedd yng Nghymru. Fodd bynnag, aseswyd bod cydweddoldeb rhai o Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn ansicr.

Amlinellir yr agweddau ansicr hyn yn y paragraffau isod.

Sgoriwyd ansicrwydd yn erbyn Amcan 6 yr Arfarniad Cynaliadwyedd sef 'Creu'r amodau lle gellir lleihau a chyfyngu allyriadau nwyon tŷ gwydr' ac Amcanion 9, 10 a 13 yr Arfarniad Cynaliadwyedd oherwydd bod gan y ddarpariaeth o seilwaith ynni adnewyddadwy fel tyrbinau gwynt y potensial i effeithio ar gymeriad y dirwedd, asedau treftadaeth, tawelwch ac ansawdd.

Aseswyd bod y cydweddoldeb yn ansicr rhwng Amcan 3 yr Arfarniad Cynaliadwyedd sef 'Cefnogi twf economaidd cynaliadwy ac amrywiaeth' a nifer o amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, gan y gallai mesurau i hybu'r economi arwain at fod angen mwy o dir ac felly arwain at rai effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol.

Cydweddoldeb Mewnol Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

| Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | | | | | | | | | | | | | |
| 2 | + | | | | | | | | | | | | |
| 3 | + | + | | | | | | | | | | | |
| 4 | + | + | + | | | | | | | | | | |
| 5 | + | + | ? | + | | | | | | | | | |
| 6 | + | + | ? | | | | | | | | | | |
| 7 | + | + | ? | | | + | | | | | | | |
| 8 | + | + | ? | | | + | + | | | | | | |
| 9 | + | + | ? | + | ? | ? | + | + | | | | | |
| 10 | + | + | ? | + | + | ? | + | + | + | | | | |
| 11 | + | + | ? | | | + | + | + | + | + | | | |
| 12 | + | + | ? | | | + | + | + | + | + | + | | |
| 13 | + | + | ? | | | ? | ? | ? | + | + | ? | + | |

Amcanion yn gydwedd = +
Anghydweddol â'i gilydd = -
Cydweddoldeb yn anhysbys = ?
Dim effaith eglur ar ei gilydd = (gadawyd yn wag)

Rhestrir Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig isod:

1. Cyfrannu at welliant i iechyd a llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol i bawb, gan gynnwys cyfrannu at leihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru
2. Creu'r amodau lle gellir sicrhau gwelliant i gydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb
3. Cefnogi twf economaidd cynaliadwy ac amrywiaeth
4. Annog camau i ddiogelu a hybu diwylliant Cymru a gwella mynediad at fannau diwylliannol a hamdden
5. Annog camau i ddiogelu a hybu'r Gymraeg

6. Creu'r amodau lle gellir cyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr
7. Annog cydnerthedd yn erbyn y newid yn yr hinsawdd
8. Annog mesurau i ddiogelu a gwella ansawdd aer
9. Creu cyfleoedd i ddiogelu a gwella unigrywedd lleol ein tirweddau a'n trefluniau
10. Annog camau i warchod a gwella asedau treftadaeth
11. Annog camau i warchod a gwella bioamrywiaeth a geoamrywiaeth
12. Annog y defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol
13. Annog camau i ddiogelu ardaloedd tawel ac atal llygredd sŵn a golau